YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
Pennaeth/Head:
Mr Matthew H T Evans
029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

Gorffennaf 11, 2025

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Wrth i ni agosáu at ddiwedd tymor, hoffwn nodi fy niolch diffuant am waith rhagorol disgyblion a staff yma yng Nglantaf drwy gydol y flwyddyn. Yn bwysicaf oll, hoffwn ddymuno gwyliau haf ymlaciol a haeddiannol iawn i'n holl deuluoedd! Mae ein **hadroddiad blynyddol** bellach ar gael ar y wefan Adroddiad Blynyddol 2024-25 lle byddwch hefyd yn dod o hyd i ddyddiau tymhorau a HMS ar gyfer 2025-2026. Mae'r adroddiad manwl yn cynnwys y gweithgarwch prysur ac egniol mewn blwyddyn academaidd lwyddiannus. Hoffem ddiolch i chi fel rhieni, unwaith eto am eich cefnogaeth, eich caredigrwydd a'ch dealltwriaeth wrth i ni weithio gyda'n gilydd er budd a lles ein plant a'n pobl ifanc. Yn gywir, *diolch yn fawr!*

**Ffarwel:** Hoffem hefyd ddiolch ac anfon ein dymuniadau gorau i'r aelodau hynny o staff sy'n ein gadael ar ddiwedd y tymor hwn. Ein diolch a'n dymuniadau gorau i'n staff cymorth: Mr Saul Tanhai, Mr Matthew Wildsmith, Ms Megan Jones, Mr Tom Ellis, Ms Eloise Austin, Mr Iwan Johnes, Mr Alun Thomas a Mr Johan Hoogendoorn ein Swyddog Datblygu Rygbi. Rydym hefyd yn ffarwelio â nifer o staff addysgu: Ms Eirlys Wyn Davies (Daearyddiaeth); Mr Denis Pugh (Pennaeth Cynorthwyol {secondiad}), Mr Sion Williams (Ffiseg); Ms Sara Evans (Addysg Gorfforol); Mrs Eleanor Gardener (D&T) a Mr Scott Griffiths (Bioleg). *Diolch a phob dymuniad da i'r dyfodol!*

**Arddangosfa Gelf TGAU a Safon Uwch:** Mae'r neuadd wedi'i llenwi dros y cyfnod diwethaf gyda gwaith ardderchog o bortffolios TGAU a Safon Uwch Celf. Roedd yn fraint mwynhau a gwerthfawrogi'r talent yn yr arddangosfa a'n diolch i'r adran am eu hysbrydoliaeth, i Mr Anthony Evans, ein beirniad (cyn Bennaeth Celf ac un o'r athrawon gwreiddiol yng Nglantaf yn 1978!), ac i'r myfyrwyr am eu portffolios rhagorol.



*Martha King, Bl 12, enillydd Gwobr Gelf y Corff Llywodraethol 2025*

**Proms, Gŵyl Glantaf a llawer mwy ...** Fe wnaethom fwynhau doniau cerddorol ein myfyrwyr yn ein Cyngerdd Proms haf, oedd yn cynnwys perfformiadau gan y gerddorfa, band jazz ac unigolion. Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd *Gŵyl Glantaf* i godi arian ar gyfer adeiladu llochesi awyr agored dros wyliau'r haf. Mae'n bleser dweud ein bod wedi llwyddo i godi dros £2,000 tuag at y gwaith. Unwaith eto, mae diwedd y tymor wedi bod yn gorwynt o weithgareddau: teithiau Drayton Manor a Heatherton; Alldeithiau Efydd ac Arian Dug Caeredin; Her y Gwyddorau Naturiol; Nosweithiau Agored Bl6; taith i Ffrainc; Taith preswyl y Ganolfan i Bentre Ifan; Sgyrsiau gyda cyflogwyr gyda Gyrfa Cymru; Her y Dreigiau Pentre Taf; Taith Gerdded Nawdd Bl 9.

**Canlyniadau Profion Cenedlaethol**: Gallwch weld canlyniadau Asesiadau Darllen (Cymraeg a Saesneg) a Rhifedd (Gweithdrefnol a Rhesymu) 2025 sydd wedi'u hychwanegu i gyfrif HWB eich plentyn drwy ddewis "Asesiadau Personol" a dewis Adborth Dysgwr neu Gynnydd Dysgwr. Os oedd eich plentyn yn absennol o'r asesiadau ym mis Mehefin, yna ni fydd unrhyw adroddiad ar HWB. Am ragor o fanylion: Asesiadau Personol **Bydd Adroddiadau Interim (Bl 7-10) ac Adroddiadau Llawn (Bl7, 8 a 10) yn cael eu dosbarthu yn ystod yr wythnos nesaf.**



*Taith preswyl y Ganolfan i Bentre Ifan*



*Pencampwyr Cwpan Athletau Cymru dan 14(m) a dan 16 (m&b)*

**Athletau Cwpan Cymru:** Llongyfarchiadau i dri o'n timau athletau ar gael eu coroni'n bencampwyr ym Mhencampwriaethau Athletau Ysgolion Cymru yr wythnos hon. Mae'r llwyddiant anhygoel hwn i dimau dan 14, dan 16 (merched) a dan 16 (bechgyn) yn gyflawniad prin wrth i ysgolion ledled Cymru gystadlu yn y bencampwriaeth. Ar ben hynny, mae'r timau merched yn ennill yr anrhydedd cenedlaethol am yr ail flwyddyn yn olynol gyda Glantaf yn ennill *Cwpan Trac a Maes Charlie Hughes* unwaith eto yn 2025. *Ardderchog ddisgyblion a diolch staff*!

**Canlyniadau TGAU a Safon Uwch**

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Iau 14 Awst: | 8am: Blwyddyn 13 yn unig | 9am: Blwyddyn 12 yn unig |
| Dydd Iau 21 Awst: | 8am: Blwyddyn 11 yn unig | 9am: Blwyddyn 10 yn unig |


Os nad yw'ch plentyn yn gallu casglu'r rhain o'r ysgol, byddwn yn rhannu'r canlyniadau gyda rhieni gyda chadarnhad ysgrifenedig gan y myfyriwr. Bydd canlyniadau unigol yn cael eu hanfon at gyfeiriad e-bost hwb pob disgybl erbyn 10am ar y dydd

**Blwyddyn newydd 2025-26:** Ym mis Medi byddwn hefyd yn dychwelyd at ddisgwyliadau arferol o ran gwisg ysgol a phrydlondeb i'r ysgol. Yn ystod misoedd yr haf rydym wedi gweld safon gwisg yn dirywio i gynnwys eitemau nad ydynt i'w caniatau. Hoffwn atgoffa pob rhiant yn garedig ac yn gadarn i brynu dim ond yr eitemau hynny a ganiateir yn ein cod gwisg ysgol ar gyfer mis Medi, mae eitemau cywir wedi'u rhestru'n glir ar ein gwefan yma: Gwisg Ysgol | Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

**Apêl gwisg ysgol:** Byddwn yn croesawu eitemau gwisg ysgol mewn cyflwr da (*wedi'u golchi a'r enw wedi'i dynnu*). Cofiwch hefyd ein tudalen Facebook Safle Gwisg Facebook Glantaf lle gellir rhoi gwisg a'i derbyn am ddim. Mae cymorth ariannol i deuluoedd hefyd ar gael drwy'r Grant Hanfodion disgyblion. Rydym yn falch i rannu taflen arwahan sy'n rhestru cymorth haf i deuluoedd gan gynnwys gweithgareddau, prydau bwyd a chymorth arall am ddim.

**Dyddiadau Tymhorau Pwysig**:

| | |
|---|---|
| Gorffennaf 14-18 | Wythnos Profiad Gwaith Blwyddyn 12 |
| Gorffennaf 15 | Prynhawn gwobrwyo y Ganolfan am 1.30pm |
| Gorffennaf 16 | Ffair Wyddoniaeth Bl 8 |
| | Adroddiadau diwedd tymor (gweler uchod) |
| **Gorffennaf 18** | **Diwedd tymor yr haf (1.30pm yn cau)** |
| Medi 1 a 2: | HMS Ysgol (ysgol ar gau i ddisgyblion) |
| **Medi 3:** | **Disgyblion Bl 7 a 12 yn unig** |
| **Medi 4:** | **Dechrau'r tymor ar gyfer pob disgybl** |
| Medi 11: | Noson Wobrwyo Chwaraeon am 7pm |



*Enillydd Gwobr Gelf TGAU: Emily Azzopardi Bl 11 gyda Mr Anthony Evans*

Yn olaf, gair o longyfarchiadau i dîm Rygbi'r Gynghrair Bl 8 a orffennodd y tymor fel Pencampwyr Cwpan Prydain ar ôl eu buddugoliaeth yng nghadarnle Rygbi'r Gynghrair yng Ngogledd Lloegr! Llongyfarchiadau fechgyn!

Dymunwn wyliau haf hamddenol a gwych i chi a diolch eto am eich cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn,



*Tîm Rygbi'r Gynghrair Bl8 yn cael ei goroni'n Bencampwyr*

Yn gywir iawn,

Matthew H T Evans
Pennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf